Ein Gwerthoedd

Lleol a Gwledig

Yn falch o fod yn sefydliad ar lawr gwlad yng Nghymru gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a lleoliad.

Mae ein hangerdd am rannu rhyfeddodau'r coetiroedd a chefn gwlad yn adlewyrchu pwysigrwydd a grym y tir a'r coed i'r bobl leol, iechyd, yr economi, diwylliant a'r amgylchedd.

Parch a Gofal

Rydym ni'n helpu amddiffyn, gwella, cynnal a gofalu am iechyd a lles yr amgylchedd, cymunedau lleol, unigolion, treftadaeth a diwylliant Cymru – trwy ein cyfathrebiadau, ein gweithredoedd a'n hethos.

Rydym yn canolbwyntio ar wneud newid cadarnhaol parhaus trwy ddatgloi potensial y tir a'r coed, meithrin ac adeiladu gwydnwch o fewn ein cymunedau lleol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein defnydd o'r iaith Gymraeg yn barhaus.

Cynhwysol

Yn falch o fod wedi ymrwymo i ddiwylliant llawn tegwch, urddas a pharch tuag at bawb, rydym yn cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo a chynnal cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb trwy gydol y sefydliad.

Rydym yn canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau wedi'u hymyleiddio. Rydym hefyd yn goresgyn rhwystrau ac yn cefnogi anghenion lles a hyfforddiant unigolion.

Ymatebol

Adnabod a chefnogi anghenion cymunedau a byd natur.

Yn weithredol, rydym yn ailgysylltu ac yn ymgysylltu â chymunedau trwy ddefnyddio'r iaith, y tir a'r coed i wella ymwybyddiaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'n lle ni o fewn byd natur, gan wella iechyd yr amgylchedd a'r economi leol er budd pawb.

Dysgu ac Ysbrydoli

Deinamig a mentrus, creadigol a diduedd – rydym yn herio, yn arloesi ac yn dathlu.

Rydym yn anelu at adfywio, atgynhyrchu a diweddaru arferion rheoli tir a choetiroedd traddodiadol, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf trwy gyfleoedd dysgu a fydd yn gosod sgiliau ac yn datblygu dealltwriaeth o sut i amddiffyn yr amgylchedd ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Gan ddysgu'n barhaus o'n rhaglenni darpariaeth ein hunain, rydym yn rhannu arferion da ac yn cydweithio er mwyn dysgu gan eraill.

Ansawdd

Trwy ymddwyn gyda gonestrwydd ac arbenigedd, mae ansawdd wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.

Trwy ddeall a chynnal proses hunan-asesu ac adolygu parhaus, rydym wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol, gwerthfawr, cadarn o ansawdd uchel i bawb.

Rydym yn croesawu ac yn gwrando ar ein hadborth er mwyn gwella ac ehangu ein darpariaeth yn barhaus.

"Gadewch i ni fod yn rhan o'r ateb gyda'n gilydd"

Tir Coed, registered address: 6G Science Park, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH.
Charity Number: 1115229, Limited Company Number: 03918116 (Registered in England and Wales)